



laith a Gwaith

Strategaeth Economaidd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Gorffennaf 2016
cymdeithas.cymru/miliwn




Iaith a Gwaith

Strategaeth Economaidd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cyd-destun

Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos na chyflawnwyd dau o brif amcanion strategaeth iaith flaenorol Llywodraeth Cymru, Iaith Pawb: bu gostyngiad nid yn unig yn y canran o siaradwyr Cymraeg, o 21% i 19%, ond hefyd yn y nifer o wardiau gyda dros 70% yn medru'r iaith. Yn fras, ymddengys fod tua 3,000 yn llai o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn.

Dengys y ffigurau nifer o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflwr yr iaith. Amlygir mai allfudo — megis pobl ifanc yn gadael eu cymunedau i chwilio am waith — yw un o'r prif ffactorau a arweinia at argyfwng yr iaith. Dyma pam mae rhaid canolbwyntio ar bolisiau fyddai'n creu gwaith mewn cymunedau Cymraeg ac ymgyrchu dros bolisiau economaidd a fydd yn cryfhau sefyllfa'r iaith.



Newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl

Sut fath o ddatblygu economaidd?

Mae'r iaith a'r economi yn gysylltiedig. Mewn ardal Gymraeg gydag economi cryf, bydd llai o bobl yn allfudo er mwyn cael gwaith, felly bydd niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn parhau i fyw yno. Ble mae niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg ac mae'r iaith mewn sefyllfa gref — ble mae medru'r Gymraeg yn ddefnyddiol wrth chwilio am swyddi, cynnig gwasanaethau, ac yn y blaen — cymhellir pobl ddi-Gymraeg sy'n symud i'r ardal i gymhathu. Dyma sefyllfa lle mae'r gymuned yn hyfyw ac mae'r iaith a'r economi yn cynnal ei gilydd. Gellir meddwl am y sefyllfa hon fel 'cynladwyedd economaidd ieithyddol'.

Wrth ystyried cynladwyedd economaidd ieithyddol, mae angen ei weld ochr yn ochr ag egwyddorion cynladwyedd amgylcheddol. Dyma pam mae'r Gymdeithas wedi ymgyrchu i gynnwys y Gymraeg yn niffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy.

Mae datblygu cynaliadwy'n golygu dysgu sut i fyw o fewn terfynau adnoddau cyfyngedig y Ddaear ar yr un pryd â chadw adeiledd ein cymdeithas a'i wella.

Credwn fod y drefn masnach rydd bresennol yn milwrio yn erbyn y Gymraeg. Mae ein gweledigaeth o ddatblygu economi cynaliadwy lleol yn gam hanfodol tuag at roi i gymunedau Cymraeg eu hiaith gyfle i oroesi. Mae economi cryf, lleol yn allweddol i ddyfodol y Gymraeg.

Credwn y dylai'r economi weithio'n un i gyd. Byddai'n polisiau economaidd yn hyrwyddo cymdeithas deg, gyfiawn, a mwy cyfartal ar yr un pryd â chydabod ein bod yn byw ar blaned ac iddi derfynau.

Yn y pendraw gwelwyd mai'r un grymoedd strwythurol sydd yn tanseilio cymunedau Cymraeg ag sydd yn bygwth pobloedd a'u diwylliannau ledled y byd. Gwelwn felly ein brwydr fel amlygiad Cymreig o frwydr fyd-eang dros drefn economaidd sydd yn gwasanaethu pobl yn hytrach nag yn eu rheoli. Trefn sydd hefyd yn parchu eu hunaniaeth, eu diwylliant a'u hamgylchedd.

Er mwyn cynnal ein cymunedau a'u diwylliant, rhaid wrth ddatblygu economaidd cynaliadwy. Dylid osgoi datblygiadau sydyn a dadreolaeth a fyddai yn y pendraw yn chwalu cymunedau.

Rydym yn ymwrthod â'r duedd gynyddol o ganoli grym economaidd, o fynd ag adnoddau oddi ar gymunedau, o fynd â gwasanaethau ymhellach o bobl. Rydym yn ymwrthod â'r duedd o ganoli adnoddau yn un rhan o Gymru. Mae angen datblygu'r genedl gyfan, nid dim ond Caerdydd a dinas-ranbarthau.

Mae angen edrych ar ddatblygu economaidd o safbwynt cynnal a chryfhau cymunedau lleol yn naturiol drwy ychwanegu gwerth i'n hadnoddau cynhenid. Yn rhy aml dehonglir datblygu economaidd fel hybu twf ar unrhyw gyfari, a dehonglir datblygu ieithyddol mewn termau diwylliannol. Mae angen edrych ar ein cymunedau Cymraeg yn holistaidd gan gydblethu'r elfennau ynghyd yn un.

Wrth wneud hyn mi fyddwn yn cyflwyno pecyn o gamau ymarferol meddir eu cymryd i gryfhau'r sector breifat, mentegarwch cymunedol a chydabod pwysigrwydd y sector gyhoeddus fel cyflogwr a chyfrannwr i'r economi yn ein cymunedau traddodiadol Cymraeg.

Meysydd Economaidd i'w Datblygu er Budd yr Iaith

Credwn fod rhai sectorau economaidd sy'n allweddol i gynnal ein cymunedau Cymraeg. Maent yn ffurfio maes gwaith i'w gefnogi, annog a datblygu ac maent efo potensial i gyfrannu tuag at greu cymunedau hyfryw i'r dyfodol. Mae angen eu datblygu yn seiliedig ar egwyddorion sefydlu marchnadoedd lleol a phrynu'n lleol — egwyddorion a fydd yn cydblethu cynladwyedd ieithyddol ac economaidd.

Amaethyddiaeth

Un o'r sectorau allweddol hynny o ran y Gymraeg a'n cymunedau gwledig ydy amaethyddiaeth, ond yn un a welodd wasgfa sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r wasgfa hon wedi cyfrannu tuag at ddiboblogi ein cymunedau gwledig a newid patrwm cymdeithas.

Mae bron i 20% o ffermydd gwartheg a defaid mewn Ardaloedd Llai Ffafirol ac oddeutu 17% o ffermydd defaid a gwartheg ar lawr gwlad yn methu â gwneud elw. Yn gyffredinol methodd 19% o'r holl ffermydd â gwneud elw yn 2014–15. Er hyn, mae pris tir yn uchel iawn ac allan o gyswllt efo'r incwm y gall ei gynhyrchu. O ganlyniad, mae'n anodd i bobl ifanc gychwyn yn y diwydiant amaethyddol a rhedeg eu fferm eu hunain, sy'n eu hannog i adael y diwydiant a'u cymunedau er mwyn dod o hyd i waith ac yn gyrru allfudo sy'n niweidiol i'r iaith. Oherwydd hyn bydd rhaid cymryd i ystyriaeth y ffactor hwn wrth geisio hwyluso mynediad pobl ifanc i'r diwydiant a pharhad amaethyddiaeth fel sector cynaliadwy.

Mae'r ffeithiau yn amlygu'r angen dybryd am weithredu, gan edrych ar y darlun llawn o anghenion ein cymunedau a chefnogi'r diwydiant amaeth fel rhan o'n cymunedau ehangach. Yn benodol, mae angen cefnogi ffermydd teuluol a gwrthwynebu'r tueddiad presennol o greu ffermydd sy'n mynd yn fwy ac yn fwy.

Sectorau allweddol eraill

Ynghyd ag amaethyddiaeth, gwelwn fod nifer o sectorau eraill yn allweddol i ddatblygu er budd yr iaith yn y dyfodol. Y sectorau hyn yw:

- **Y sector amgylcheddol, ee. ynni adnewyddadwy:** mae'r sector hon yn gysylltiedig â'r sector amaethyddol ac yn cynnig potensial i ffermydd arallgyfeirio. Mae hefyd wedi ymsefydlu mewn rhannau gwledig o Gymru, megis y canolbarth, ac yn cynnig cyfle i greu swyddi o ansawdd uchel, gan alluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau.
- **Diwydiannau creadigol, ee. cyfryngau aml-blattform:** mae'r sector hon yn allweddol i ddatblygu democratiaeth gref yng Nghymru, lle mae'r cyfryngau wedi bod yn ddrwg-enwog am eu cyflwr gwan. Mae hefyd yn hanfodol i sicrhau sianeli teledu a radio Cymraeg llewyrchus.
- **Technoleg:** mae'r sector hwn yn gysylltiedig â bron pob sector arall ac yn cynnig potensial am swyddi o ansawdd uchel i bobl o fewn eu cymunedau.
- **Bwyd a diod:** mae'r sector hon yn gysylltiedig â'r sector amaethyddiaeth ac yn hanfodol i lwyddiant y sector honno. Mae hefyd yn sector a flaenoriaethir gan Lywodraeth Cymru.
- **Gofal:** wrth i'r boblogaeth heneiddio, mae'r galw am wasanaethau gofal yn cynyddu. Mae'n hanfodol sicrhau bod y rhain ar gael i bobl yn eu hiaith naturiol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt.

- **Hamdden a chroeso:** mae'r sector hon wedi'i datblygu mewn ffordd sydd wedi bod yn niweidiol i gymunedau Cymraeg yn y gorffennol ond mae'n rhan fawr o economi cefn gwlad Cymru. Mae angen ei datblygu mewn ffordd sy'n gweithio i gymunedau: er enghraifft, drwy sicrhau bod gweithgareddau awyr agored ar gael drwy'r Gymraeg ac yn darparu bywoliaeth i bobl leol.

Cynigiwn felly'r camau ymarferol canlynol ar lefel Gymreig a chymunedol fel modd nid yn unig i wrthsefyll y tueddiadau diweddar, ond hefyd o gynnig gweledigaeth newydd i'n cymunedau.

Gweithredu yng Nghymru

Yn y lle cyntaf mae angen i Lywodraeth Cymru rhoi'r Gymraeg yn rhan ganolog o *bob* rhaglen datblygu economaidd: nid fel mater ymylol ond fel elfen lorweddol yn croesi pob rhaglen ynghyd â bod yn gyfle ynddo'i hun i fod yn sbardun economaidd unigryw.

Dylai hefyd fod yn ofynnol i'r holl fusnesau sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog a bod hynny yn amod creiddiol o'r grant. Mae angen sefydlu proses fonitro gadarn i fonitro hyn.

Yr hyn sydd wedi amlygu ei hun yn ystod y blynyddoedd diwethaf ydy'r natur hap a damwain a geir i ddatblygu economaidd. Nid yw'r drefn bresennol yn gweithio.

Yr elfen arall amlwg ydy'r dirywiad parhaol a geir yn yr ardaloedd gwledig dwfn yng Nghymru a pha mor fregus yw sawl tref a chymuned. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n glir yng nghanlyniad y Cyfrifiad diwethaf a ddangosodd golled barhaol o'n pobl ifanc sy'n tanseilio ymhellach gynaladwyedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny.

Credwn felly fod modd gweld cryfhau'r sefyllfa economaidd hefyd yn fodd o gryfhau'r Gymraeg; ond hefyd bod modd defnyddio'r Gymraeg fel adnodd economaidd i gryfhau'r economi.

I alluogi hyn i ddigwydd credwn dylid dysgu gwersi o rannau eraill o Ewrop a bod yn barod i ddatblygu dulliau newydd o weithredu. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o hyrwyddo datblygu economaidd yng Nghymru yn dod o dan adain Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n glir nad yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth sifil yn gweithredu penderfyniadau gweithredol y Llywodraeth yn gweithio'n llwyddiannus ac mae angen newid yn y gwasanaeth hwn. Tra bo'r sefyllfa hon yn bodoli, mae angen gweithio mewn ffordd wahanol.

Argymhellir felly sefydlu corff datblygu economaidd sy'n gweithredu pecyn o weithgaredd a fydd y Gymraeg yn rhan greiddiol a ganolog iddo, ar sail Udaras na Gaeltachta yn Iwerddon neu Highlands and Islands Enterprise yn yr Alban. Gellir ei alw'n Anturlaith: Menter Iaith ar Waith. Bydd y corff hwn yn:

- Efelychu Parc Menter Andoain mewn pedair ardal.
- Datblygu Deorfa Wledig fel rhan o'r Parc Menter.
- Gweithredu cynlluniau penodol ar gyfer datblygu economaidd o fewn cymunedau gan hyrwyddo datblygu o'r gwaelod i fyny.

Bydd gan Anturlaith strwythur cynrychioladol ar draws Cymru a bydd yn atebol i'r Cynulliad. Sefydlir y corff drwy ddeddf mentergarwch newydd. Bydd ganddo ddyletswyddau statudol, amcanion a nodau a osodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan fwrdd Anturlaith gyfrifoldeb am sicrhau bod y corff yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, amcanion a nodau. Bydd gan Anturlaith hefyd dîm o staff, gan gynnwys tîm rheoli a arweinir gan brif weithredwr, a fydd yn gyfrifol am redeg y corff o ddydd i ddydd.

Dylid lleoli'r corff menter yma yn bwrpasol mewn lleoliad er mwyn pontio rhwng cymunedau traddodiadol Cymraeg y Gogledd Orllewin a'r De Orllewin ac i fod yn gyfrifol am ddatblygu economaidd ar hyd y Gorllewin ynghyd â rhai rhaglenni cenedlaethol o blaid y Gymraeg.

Serch hynny, nod y corff yma yw creu cyd-destun cynaliadwy i'r Gymraeg ac oherwydd hynny bydd hefyd yn cyfranogi i'r gwaith o weld cynnydd yn y Gymraeg yn y De Ddwyrain er mwyn creu cyfleoedd i'n pobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i strwythurau addysgol ac i helpu pob ardal symud ar hyd y continwmm ieithyddol.

Gwaith Anturlaith fydd i weithredu ar sail cydblethu a hyrwyddo:

- menter economaidd gynhenid.
- datblygu cymunedol cynaliadwy.

Bydd y fenter economaidd a datblygu cymunedol yma wedi'u sefydlu ar egwyddorion cynaladwyedd ieithyddol.

Mae arbenigwyr datblygu economaidd wedi dangos bod y gallu i rwydweithio, rhannu syniadau, rhannu adnoddau a chyd-ddatblygu mentrau yn arf defnyddiol sy'n helpu cryfhau economïau. Yng nghyd-destun hyrwyddo'r Gymraeg, mae angen creu peuoedd newydd lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio. Gan gyfuno'r anghenion hyn, bydd Anturlaith yn creu cyfleoedd i unigolion a chwmnïau rannu syniadau ac adnoddau a datblygu mentrau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cam strategol cyntaf Anturlaith fydd i efelychu model Parc Busnes Andoain, sef Parc Diwylliannol Martin Ugalde yng Nghwlad y Basg* a pharciau tebyg. Dyma barc menter sy'n hyrwyddo diwylliant Basgeg ac yn lleoliad i wahanol sefydliadau, cwmnïau a chymdeithasau Basgeg. Mae'r rhain mewn sectorau cyfathrebu, ymchwil, cyfryngau, cerddoriaeth, gwaith ieuencid, masnachu a'r amgylchedd. Bydd Anturlaith yn sefydlu parciau busnes a/neu glystyrau mentrau Cymraeg mewn pedair ardal benodol, megis Dyffryn Ffestiniog, Bro Ddyfi, Dyffryn Teifi ac ardal yr Efail Wen, rhwng Pontypridd a Chaerdydd.

Mae'r ardaloedd hyn yn strategol bwysig o ran y Gymraeg ac yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol ehangach. Byddant yn galluogi gweithredu dwy nod bwysig yn ein gweledigaeth. Yn gyntaf, sicrhau dyfodol cymunedol i'r Gymraeg mewn ardal eang ar hyd y Gorllewin ac, yn ail, symud ardaloedd ar hyd y continwmm ieithyddol. Drwy gyrraedd y ddwy nod hon, gwelir twf yn y Gymraeg mewn peuoedd daearyddol a chymunedol lle ni ddefnyddir yr iaith yn eang ar hyn o bryd, ynghyd â thwf mewn meysydd economaidd newydd.

Er mwyn datblygu syniadau a mentrau newydd o'r gwaelod i fyny, fe fydd Anturlaith yn sefydlu Deorfa Wledig. Bydd y Ddeorfa yn lleoliad cyfrwng Cymraeg i bobl ddechrau busnesau newydd, gan gynnwys y rhai sydd â syniadau arloesol ond heb brofiad o sefydlu busnes. Bydd yn cynnig pecyn sy'n cynnwys gofod addas i fentrau bychain, cyngor busnes, mentora, cyfleoedd i gael lleoliad efo busnes tebyg neu wasanaeth paru, mynediad at gyllid a phecyn cyrsiau neu weithdai wedi'u teilwrio. Y nod fydd i ddatblygu clwstwr o fentrau newydd fydd yn tyfu efo amser ac yna medru ymestyn i unedau mwy. Trwy hynny gwelir budd economaidd yn ehangu ynghyd â sicrhau cynaladwyedd y Gymraeg mewn modd ymarferol.

Rhoddir pwyslais ar sawl maes ond yn naturiol gwelir cyfleoedd yn arbennig i ddatblygu mentrau sy'n adeiladu ar yr adnoddau cynhenid ieithyddol, diwylliannol neu amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli yn lleol. Maes o law fe fydd y cyfleoedd i rwydweithio rhwng mentrau. Wrth i'r clwstwr dyfu fe fydd syniadau newydd pellach yn datblygu ac yn arwain at ragor o fentrau newydd. Felly fe fydd y Ddeorfa yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol ac yn rhoi cynaladwyedd ar waith.

* www.kulturparkea.eus

Nod targed swyddi

Rhwng y pedwar parc, creïr 1,000 o swyddi.

Ar ôl datblygu'r canolfannau strategol hyn medrid datblygu gwaith pellach mewn canolfannau megis Llangefni, Dinbych, Ystradgynlais/Pontardawe a'r Cymoedd.

O weithredu ar hyd y trywydd strategol hwn medrir hoelio sylw ar greu 1,000 o swyddi fydd nid yn unig yn creu bwrlwm economaidd, ond hefyd bwrlwm ieithyddol newydd.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth uchod, galwn ar Lywodraeth Cymru i:

1. Sefydlu Asiantaeth Datblygu Economaidd ar sail gwersi rhyngwladol, sef y corff Anturlaith a ddisgrifir uchod, er mwyn:
 - a. Efelychu gwaith Parc Menter Andoain, sef canolfan sy'n gartref i sefydliadau a busnesau a wnelo â'r Gymraeg a diwylliant Cymru, mewn pedair ardal.
 - b. Datblygu Deorfa Wledig, sef canolfan sy'n darparu unedau ar gyfer sefydlu busnesau newydd a hefyd cefnogaeth a chynghor iddynt, oddi fewn i'r ardaloedd hynny.
2. Roi'r Gymraeg yn fater llorweddol ym mhob rhaglen datblygu economaidd sydd gan Lywodraeth Cymru.
3. Sicrhau bod amodau cadarn o blaid y Gymraeg yn cael eu gweithredu yn sgil dosraniad grantiau datblygu busnes sy'n dod o arian cyhoeddus.

Cynlluniau penodol

Ynghyd â gweithredu ar lefel Cymru drwy fabwysiadu'r galwadau hyn, mae angen sbarduno datblygu cymunedol, datblygu menter a datblygu strategol ar draws Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, galwn am i'r corff Anturlaith, a ddisgrifir uchod, gymryd y camau penodol dilynol.

Datblygu Cymunedol

1. **Banc Buddsoddi Cymunedol:** Dylid sefydlu cronfa buddsoddiadau bach i helpu ddatblygu syniadau drwy hybu arloesedd, creadigrwydd, arbrofi, gwaith ymchwil, astudiaethau dichonoldeb, a hybu mentergarwch cymunedol economaidd. Bydd y banc yn cynnwys Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol sy'n cynnig symiau cymharol fach o arian i grwpiau cymunedol megis Merched y Wawr er mwyn cynnal gwasanaethau a gofodau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y lleoliad neu grŵp, er enghraifft neuaddau cymunedol ac adeiladau sydd mewn perygl o gael eu colli fel gofodau cymdeithasol, megis tafarnau, siopau a hen ysgolion. Bydd y gronfa yn caniatáu cymunedoli'r adeiladau hyn.
2. **Banc Syniadau:** Dylid sefydlu banc syniadau i ddatblygu a hybu cronfa o syniadau posib y medrir eu datblygu dros amser gan ddefnyddio adnoddau'r Banc Buddsoddi Cymunedol i'w gwireddu.

3. **Hwyluswyr cymunedol:** Dylid sefydlu strategaeth datblygu gymunedol efo rhwydwaith o hwyluswyr datblygu cymunedol*. Bydd y rhain ar gael i helpu cymunedau wireddu eu syniadau eu hunain. Bydd y swyddogion hyn dan adain Anturlaith ac yn gweithio efo cymunedau i sicrhau hybu a datblygu syniadau o'r gwaelod i fyny. Drwy hyn, sicrheir perchnogaeth cymunedau ar eu tynged eu hunain. Bydd yr hwyluswyr yn gweithio'n agos efo'r Banc Syniadau a'r Banc Buddsoddi Cymunedol.
4. **Canolfan Iaith ar Waith:** Dylid sefydlu canolfan gweinyddu/cymorth sector wirfoddol i'w galluogi i gyrraedd y safonau iaith Gymraeg newydd ac i fedru gwell gwasanaethau yn ddwyieithog.
5. **Dysgfan:** Dylid sefydlu rhwydwaith o ganolfannau oddi fewn cymunedau gan greu peuoedd newydd i alluogi dysgu Cymraeg dwys, hybu gweithgarwch newydd, fod yn ddolen gyswllt i'r gymuned ac i roi egni newydd i weithgarwch Cymraeg ardaloedd, a hefyd i rannu gwybodaeth a deunyddiau yn hwylus i'r cyhoedd. Enw'r rhwydwaith hwn fydd y Ddysgfan.

Bydd pwyntiau 1–5 yn darparu hyd at 500 o swyddi.

Datblygu Menter

1. **Creu cwmni asedau:** Dylid creu cwmni asedau i ddatblygu a sicrhau perchnogaeth leol dros asedau.
2. **Gwinllan a Roddwyd:** Dylid cefnogi rhwydwaith o dafarnau cymunedol Cymreig ar sail tafarnau megis Y Fic, Llithfaen, a Pengwern, Llan Ffestiniog, a fydd hefyd yn esiamplau o ymarfer da o ran cynnyrch Cymreig a Naws am Le (200 swydd).
3. **Gofal Cymru:** Dylid gweithredu pecyn o weithgarwch ar sail cynllun Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru a sefydlu cynllun Gofal Cymru fel arf i weithredu hyn (200 swydd).
4. **Ynni a'r Amgylchedd:** Dylid cymryd camau er mwyn helpu i ddatblygu a thyfu sector 'ynni a'r amgylchedd' newydd gan gynnwys:
 - Cefnogi busnesau sy'n ceisio datblygu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol newydd ac arloesol.
 - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu clwstwr o fusnesau yn seiliedig ar yr uchod drwy'r gwasanaeth cymorth busnes rhagweithiol a rhwydweithiau a datblygu cyfleoedd newydd yn deillio o waith y Ddeorfa Wledig (100 swydd).
5. **Ynni Cymru:** Dylid sefydlu cynllun Ynni Cymru i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddol dan berchnogaeth leol, megis Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris, ac i ddatblygu safleoedd nad yw'r tirlfeddiannwr am ddatblygu ei hun.

* Bydd y strategaeth yn cynnwys cynlluniau sydd eisoes yn bodoli, megis Cymunedau'n Gyntaf.

6. **Sector Fwyd — Cynllun Maeth:** Ystyrir bod sector ffermio gref a hyfyw yn allweddol bwysig i'n dyfodol economaidd. Yn ogystal â'i fudd economaidd uniongyrchol, rhydd sail ar gyfer nifer o sectorau eraill gan gynnwys prosesu bwyd, twristiaeth a hamdden awyr agored. Gan gydnabod hyn, dylid cymryd y camau canlynol:
- a. Sicrhau pwysigrwydd parhad unedau amaethyddol cyngor sir (ffermydd cyngor) fel adnodd i alluogi mynediad pobl ifanc i'r diwydiant.
 - b. Hybu datblygiad trywyddau cyflenwi lleol a sicrhau gweithredu pendant a chryfach yn y sector Croeso tuag at ddefnyddio cynnyrch Cymreig.
 - c. Hybu ychwanegu gwerth oddi fewn y diwydiant amaeth drwy uno meysydd, gan ddilyn esiamplau o wledydd eraill Ewrop; er enghraifft lle mae fferm yn berchen ar fwyty.
 - d. Targedu cymorth sydd eisoes ar gael i fusnesau fferm drwy wasanaeth Cyswllt Ffermio yn rhagweithiol.
 - e. Annog cynhyrchwyr bwyd lleol i ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol gyda'r nod o sicrhau'r budd economaidd lleol mwyaf posibl o'r cynhyrchion crai a gynhyrchir.
 - f. Codi proffil y sector bwyd a diod Cymreig.
 - g. Annog busnesau bwyd yn yr ardal i ddefnyddio'r dechnoleg fwyd a'r wybodaeth a'r arbenigedd datblygu cynnyrch newydd sy'n bodoli o fewn Canolfan Fwyd Cymru.
 - h. Sicrhau cyllido digonol i Ganolfan Fwyd Cymru er mwyn iddi gynnal a datblygu'r gwasanaethau y gall eu darparu i fusnesau fel rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu busnesau bwyd yng Nghymru.
 - i. Datblygu rhwydweithiau neu ddysgu gweithredol penodol ar gyfer busnesau o fewn sectorau ffermio a bwyd-amaeth.
 - j. Datblygu'r cysylltiadau rhwng busnesau bwyd-amaeth a'r rhai mewn sectorau cysylltiedig (gan gynnwys twristiaeth a hamdden awyr agored) gyda'r nod o gryfhau'r cysylltiadau rhwng y sectorau hynny drwy weithredu yn eang ar werthoedd Naws am Le (200 swydd).
7. **Sefydlu Gwesty Hyfforddiant:** Dylid cydweithio efo atyniad megis Portmeirion i ddatblygu Gwesty Hyfforddiant gan weithredu fel esiampl ymarfer da gan weithredu gwerthoedd Naws am Le (20 swydd).
8. **Techneg:** Dylid cefnogi datblygiad mentrau newydd ym maes technoleg gan ddatblygu clwstwr/ rhannu gofod/rhwydweithio er mwyn creu cyfleoedd i ddatblygu syniadau pellach newydd (100 swydd).
9. **Cyswllt:** Dylid cefnogi datblygiad cwmni cyswllt dwyieithog i ddatblygu ystod o wasanaethau dwyieithog ar ran y sector breifat a chyfleustodau (200 swydd).
10. **Ymgyrch Siaradwyr Cymraeg y Tu Allan i Gymru:** Mae lwerddon a'r Alban wedi bod yn llwyddiannus yn meithrin perthynas efo rhai alltud gan ddenu buddsoddiad a sgiliau yn ôl i'w mamwlad. Mae angen dybryd i Gymru efelychu hyn a fod yn rhagweithiol yn denu buddsoddiad i Gymru (300 swydd).

Datblygu Pobl

1. **Rhy ifanc i fentro:** Dylid datblygu rhaglen efo pobl ifanc i hybu ymwybyddiaeth am fentro ym mhob ffordd gan bobl ifanc.
2. **Gorwelion:** Dylid datblygu cynllun i ehangu gorwelion y gwasanaeth gyrfaoedd a chydweddu sgiliau pobl ifanc efo anghenion a chyfleoedd lleol. Mae angen darparu addysg am yr economi mewn ysgolion. Yn benodol, dylai ysgolion wneud ein pobl ifanc yn ymwybodol o'r economi leol a chenedlaethol a sut i fod yn rhan o hynny.
3. **Llwyddo'n Lleol:** Dylid sefydlu cynllun Llwyddo'n Lleol mewn gwahanol ardaloedd gan ddysgu gwersi o'r cynllun cyffelyb yng Ngwynedd. Amcanion y prosiect hwn fydd datblygu sgiliau entrepreneuriaid allweddol ar gyfer cyflogaeth a hunangyflogaeth, gan hyrwyddo sectorau twf, cynyddu hyder pobl ifanc yn eu hunain a'u cymunedau a'r cyfleoedd gall eu cymunedau gynnig iddyn nhw, a hyrwyddo hunangyflogaeth fel dewis (200 swydd).
4. **Llwybro:** Cynllun i dracio a denu ein pobl ifanc yn ôl, yn seiliedig ar gynlluniau cyffelyb sydd wedi rhedeg yn yr Alban a Chymru o'r blaen. Y nod fydd tracio myfyrwyr ar ôl gadael yr ysgol efo'r bwriad o'u denu yn ôl i swyddi penodol neu fel entrepreneuriaid, gan gynnwys denu athrawon sy'n siarad Cymraeg yn ôl i Gymru drwy fonysys ariannol.
5. **Buddsoddi mewn myfyrwyr:** Er mwyn atal allfudiad ein pobl ifanc fwyaf dawnus i brifysgolion Lloegr, dylid dileu'r polisi presennol o noddi myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru. Mae angen buddsoddi yn addysg uwch Cymru, ac yn natblygiad pellach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn i'r system addysg wasanaethau anghenion ein cymunedau yn hytrach na mympwy'r farchnad.
6. **Rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:** Dylid estyn maes cyfrifoldeb y Coleg Cymraeg i addysg bellach, ac addysg ôl-16 yn fwy cyffredinol.

Dylai'r Coleg fod â chyfrifoldeb dros addysg ôl-16 yn Gymraeg, gan gynnwys addysg bellach, er mwyn sicrhau dilyniant.

Gall hwn fod yn gynllun peilot ar gyfer addysg uwch a hyfforddiant yn gyffredinol. Y nod fydd galluogi myfyrwyr i gychwyn mewn sectorau megis gofal ac iechyd trwy astudio hyd Lefel 3 addysg bellach, gweithio'n ymarferol am rai blynyddoedd ac yna derbyn hyfforddiant mewn swydd cyrsiau uwch i ddod yn rheolwyr. Dyna hybu cynhwysiant cymdeithasol a bod yn lwybr arall at fod yn rheolwyr — gyda phrofiad ymarferol o'r hyn yr oeddent yn ei reoli. Fel hyn bydd addysg Gymraeg yn flaengar.

Cychwynnir y cynllun peilot mewn addysg a hyfforddiant Cymraeg gan fod y niferoedd llai yn golygu ei bod yn gwneud synnwyr cydlynu darpariaeth yn lle dyblygu cyrsiau mewn sefydliadau cyfagos. Er mwyn gwireddu hyn, byddai'n rhaid i'r Coleg gael swyddogaeth yn y drefn hyfforddi athrawon a hyfforddiant yn gyffredinol.

Datblygu Strategol

1. **Diwylliant fel catalydd:** Cydnabyddir bod y sector greadigol a diwydiannau diwylliannol yn cyfrannu'n helaeth nid yn unig i'r economi ond hefyd at ansawdd bywyd. Yn wir dengys gwaith ymchwil diweddar fod y sector yn cyfateb i 3% o holl allbwn economaidd y byd. Yma yng Nghymru gwelwn fod gwaith y Cyngor Llyfrau yn unig yn cynorthwyo i ddiogelu 1,000 o swyddi.

Dylid felly sefydlu darlledwr aml-blattform newydd fydd yn medru gweithredu ar sawl lefel:

- a. Creu cynnwys gwreiddiol o'r safon uchaf.
- b. Gweithredu ar-lein yn bennaf, ond hefyd ar radio ac ar deledu.
- c. Gosod fframwaith a thechnoleg dosbarthu effeithiol ac arloesol ar gyfer ffonau symudol, tabledi, setiau teledu clyfar, consolau gemau ac ati.
- d. Cynnig plattform i leisiau newydd ac amgen er mwyn adlewyrchu ystod ehangach o bobl a bywyd cyfredol yng Nghymru.
- e. Cynyddu defnydd y Gymraeg, yn enwedig ymysg pobl ifanc.
- f. Cynorthwyo ac ategu gwasanaethau S4C a Radio Cymru.

Yn ychwanegol at hynny, dylid cydweithio efo'r Cyngor Llyfrau i ddatblygu cyfleoedd economaidd newydd gan ychwanegu gwerth at weithgarwch. Gallai hyn gynnwys:

- a. Cefnogi datblygiad Gwyliau Llên.
- b. Datblygu cyfleoedd i ddylanwadu ar y sector Croeso i weithredu yn unol ag egwyddorion Naws am Le.
- c. Datblygu cyfleon a marchnadoedd rhyngwladol.

Byddai hyn yn creu swyddi, creu bwrwm diwylliannol a chodi proffil Cymru (100 swydd).

2. **Band eang a ffonau symudol:** Dylid rhoi blaenoriaeth i gyflwyno band eang ffibr cyflymder uchel yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gefn wlad cyn trefi. Dylid hefyd ystyried cyflwyno band eang cyflym iawn, mewn modd a dargedir, mewn lleoliadau busnes allweddol neu i gefnogi clystyrau busnes allweddol. Yn ogystal, dylid cymryd camau ar frys i ymdrin â signal ffonau symudol gwael ar ben unrhyw brosiectau presennol.
3. **Canolfan Gwasanaethau Sector Gyhoeddus:** Mae cyfle ym Mhorthmadog i ddatblygu canolfan sy'n darparu gwasanaethau gweinyddol dwyieithog yn lle cau swyddfa HMRC (1 swydd).
4. **Cynllun Marchnad Lafur Cymraeg:** Credwn fod modd cynorthwyo i ddatblygu'r economi drwy edrych ar y Gymraeg fel sgil sydd yn creu cyfleoedd gwaith gan gyflogwr, ac yn galluogi pobol i gael swyddi a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Y dymuniad yw gweld datblygu'r economi yn digwydd law yn llaw â'r nod o greu Cymru ddwyieithog ond mae angen cynllunio ar gyfer y dyfodol dwyieithog hwn. Credwn hefyd fod modd creu swyddi newydd i siaradwyr Cymraeg mewn meysydd sydd heb eu datblygu yn llawn.

Bydd y cynllun yma yn cynorthwyo cyrraedd y nod o gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chael mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith*. Mae rhai enghreifftiau yn bodoli yn barod o farchnadoedd llafur cyfrwng Cymraeg sy'n gweithredu yn naturiol, ynghyd â chynlluniau sydd yn llwyddo i greu gweithlu ar gyfer sectorau penodol. Bydd hyn yn broses hir dymor, ac yn cynnwys sawl lefel o weithgaredd a chydweithio gyda phartneriaid o sectorau amrywiol.

* Nod Iaith Byw: Iaith Fyw (2012)

Y Sector Cyhoeddus

1. **Caffael:** Rhaid cydnabod fod y sector cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol yn economi nifer o ardaloedd, yn gyflogwr pwysig ac felly yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn dylanwadu'n helaeth ar statws a defnydd o'r iaith, nid yn unig oddi fewn y sefydliadau unigol ond hefyd oddi fewn y cymunedau o'u cwmpas.

Gall y sector cyhoeddus chwarae rhan allweddol yn hyn drwy gynyddu y canran o nwyddau a gwasanaethau a brynir yn lleol. Dylid cynyddu'r lefel o gaffael domestig Cymreig, h.y. faint o nwyddau a gwasanaethau mae sefydliadau cyhoeddus Cymru yn prynu yng Nghymru, o 52% i 75% a thrwy hynny helpu i greu a diogelu miloedd o swyddi. Nodwn fod lefelau caffael cyhoeddus yn yr Almaen a Ffrainc oddi fewn eu gwledydd tua 98%. Bu cynnydd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar o 35% yn 2004 i 52% nawr. Serch hynny dim ond cynnydd o 3% a gafwyd ers 2012 ac mae angen gwella hyn.

O osod nod o 75% o gaffael lleol, mae rhai yn datgan fod tua 2,000 o swyddi yn cael eu creu am bob 1% o gynnydd ac felly byddai modd creu rhai miloedd o swyddi newydd yng Nghymru o ail fuddsoddi arian cyhoeddus yn yr economi leol drwy weithredu polisiâu caffael call.

2. **Gweithredu mewnol drwy'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus:** Mae rôl allweddol hefyd gan y sector cyhoeddus i gydnabod yr iaith yn sgil hanfodol a thrwy hynny gryfhau cynladwyedd y sefydliad a pherthnasedd y sefydliad oddi fewn y cyd destun cymdeithasol lleol.

Dengys Cyfrifiad 2011 fod polisi iaith Cyngor Gwynedd yn cyfrannu'n gadarnhaol yn economaidd a chymdeithasol ac mae'n cyfrannu tuag at gynladwyedd y Gymraeg oddi fewn i gymunedau yn Arfon.

Rhaid felly cael y sector cyhoeddus i fabwysiadu'r Gymraeg fel dull gweithredu mewnol mewn tair ardal yn benodol yn ddi-ffael — Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin

Dylid sicrhau hyn drwy osod datganiad o fwriad gan y sefydliadau a gweithredu continwmm ieithyddol mewnol a fydd yn sicrhau fframwaith gweithredu clir ar gyfer holl staff a fydd yn sicrhau datblygiad sgiliau Cymraeg cyflawn.

O wneud hyn byddai'n cyfrannu'n sylweddol tuag at newid patrwm canlyniadau Cyfrifiadau'r blynyddoedd diwethaf, yn cryfhau perthnasedd economaidd y sefydliadau a'u hardaloedd ac yn fodd i sicrhau gwasanaethau Cymraeg cyflawn.

O'n hymchwil efo nifer o sefydliadau yn yr ardaloedd hyn gwelir bod rhwng 20% a 43% o'r gweithlu yn ddwyieithog er eu bod wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg yn llawer uwch. Nid ydynt felly yn gallu gweithredu yn gyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

Y sefydliadau sector cyhoeddus sydd dan sylw yw:

- Prifysgolion a cholegau addysg bellach
- Awdurdodau iechyd
- Awdurdodau lleol
- Llywodraeth Cymru

O ystyried hyn ac o weithredu cynllun continwmm pendant o fewn y sefydliadau hyn i gyd, rhagwelir y medrid cael 7,200 o siaradwyr Cymraeg newydd.

Rhagwelir felly bod modd cael 10,640 o swyddi cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

- Sector cyhoeddus: 7,200
- Parciau Menter/Clystyrau: 1,000
- Hybu Mentergarwch: 2,440

Efo ymrwymiad gwleidyddol, ychydig o weledigaeth ac egni rydym yn hyderus y meddir, drwy weithredu ar hyd y trywydd a awgrymir yn y ddogfen yma, greu nifer sylweddol o swyddi newydd, rhoi hwb sylweddol ac ymarferol i'r Gymraeg ynghyd â sicrhau bod y sector cyhoeddus yn llawer mwy atebol, yn adlewyrchu'n well y cymunedau maent ynddynt ac yn medru gweithredu yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg
Gorffennaf 2016

cymdeithas.cymru/miliwn